



Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer cyfnod 1 Hydref – 31 Rhagfyr 2016

Rhagair

Cyflwynir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth am archwiliadau a digwyddiadau rheoleiddio perthnasol i'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Mae adroddiadau yn cael eu dosbarthu yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd ac maent ar gael hefyd ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lc/>).

Gan amlaf bydd arolygwyr o ONR yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd ac yn ymateb i gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw berson sydd yn dymuno gwneud ymholiad parthed materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

TABL CYNNWYS

1	ARCHWILIADAU	ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.
2	MATERION RHEOLAIDD	3
3	MATERION HEB FOD YN RHEOLAIDD	4
4	GWEITHGAREDD RHEOLIADOL	4
5	NEWYDDION ODDI WRTH ONR.....	4
6	CYSYLLTIADAU	5

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau'r archwiliad

Cynhaliodd arolygwr safle ONR archwiliadau ar y dyddiadau a ganlyn yn ystod y chwarter:

12, 13, 14, a 15 Rhagfyr 2016

Cynhaliodd arolygwr ONR archwiliadau diogelu rhag pelydredd ar 13 a 14 Rhagfyr 2016.

2 MATERION RHEOLAIDD

2.1 Archwiliadau

Cynhelir archwiliadau fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfedd gyda'r canlynol:

- yr amodau sydd ynghlwm wrth drwydded safle ONR a gyflwynwyd gan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- y rheoliadau a wnaed dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ioneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r archwiliadau yn cynnwys monitro gweithgarwch y deiliad trwydded ar y safle mewn perthynas ag achosion, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau mewn achosion diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch. Mae disgwyl i'r deiliad trwydded wneud a gweithredu trefniadau digonol dan yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfio cyfreithiol. Rhaid i archwiliadau farnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'u cyflawni.

Yn y cyfnod hwn, roedd yr archwiliadau rheolaidd o'r safle/yr orsaf wedi ystyried y canlynol:

- cyfarpar adeiladu a/neu gomisiynu;
- rheoli gweithredu gan gynnwys rheoli ac arolygaeth;
- hyfforddiant staff, cymwysterau a phrofiad;
- datgomisiynu;
- amddiffyn rhag ymbelydredd;
- paratodau ar gyfer argyfwng;
- archwiliadau, cynnal a chadw, archwilio a phrofi

Yn gyffredinol roedd ONR wedi dyfarnu bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd ar y safle mewn perthynas â gofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd hynny a archwiliwyd. Fodd bynnag, yn y meysydd yr ystyriwyd bod angen gwelliannau, fe wnaeth y deiliad trwydded ymrwymyadau bodddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd arolygwr y safle yn monitro cynydd yn ystod ei ymweliadau yn y dyfodol. Ble gwelir angen, bydd ONR yn cymryd camau ffurfiol gorfodi rheoleiddiol i weithredu gwelliannau a hynny o fewn terfynau amser a ystyrir yn rhai ymarferol.

2.2 Gwaith arall

Cynhaliodd arolygwr y safle gyfarfod cyfnodol gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli gweithwyr a derbyn gwybodaeth ar faterion yn effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn y gweithle.

Roedd arolygwr gwastraff ymbelydrol ONR wedi mynychu Gweithdy Rhanddeiliaid Dewisiadau Strategol Diwedd Safle Trawsfynydd a gynhaliwyd yn Nhrawsfynydd ar 29 Tachwedd 2016. Gweithdy Rhanddeiliaid oedd hwn, wedi ei sefydlu o fewn cylch gwaith Grŵp

Tactegol Diwedd Trawsfynydd (TESTG). Amcan y gweithdy oedd 'cwbllhau'r cam cyntaf yn y daith tuag at ddiffinio graddau (os o gwbl) ymbelydredd a wnaed gan ddyd a ellid ei adael ar y safle ar ddiwedd y cyfnod dadgomisiynu (wedi ei drefnu ar gyfer tua 2083)'. Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn ystod y gweithdy yn gefnogol, yn gyffredinol, i ddulliau gweithredu Magnox Cyf.

3 MATERION HEB FOD YN RHEOLAIDD

Mae'n rhaid bod gan ddeiliad trwydded drefniadau mewn lle i ymateb i faterion a digwyddiadau nad ydynt yn rheolaidd. Mae archwilywyr ONR yn barnu cywirdeb ymateb y deiliad trwydded, gan gynnwys y gweithredu a wneir i sicrhau bod unrhyw welliannau yn digwydd.

Adroddodd Magnox Cyf, yn ystod ymarfer tân, ym mis Tachwedd, bod sawl ardal ar y safle lle nad oedd yn bosibl clywed yr uwchseinydd a neu'r larwm tân, gan arwain at oedi wrth ymgynnull ar y safle. Mae Magnox Cyf wedi adrodd bod yr holl faterion parthed yr uwchseinydd wedi cael eu hasesu a bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer asesu, ledled y safle, gan gontractiwr arbenigol.

4 GWEITHGAREDD RHEOLIADOL

Fe all ONR gyflwyno dogfennau ffurfiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd gyda gofynion rheoliadol. O dan amodau trwydded safleoedd niwclear, mae ONR yn cyflwyno dogfennau rheoliadol, sydd naill ai yn caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod rhyw fath o gamau i'w cymryd; gan amlaf caiff y rhain eu galw, ar y cyd, yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant gymryd ffurfiau eraill. Yn ogystal â hyn, gall arolygwyr gyflwyno Rhybuddion Gorfodi er mwyn sicrhau gwelliannau mewn diogelwch.

Mae'r dogfennau rheoliadol a ganlyn wedi eu cyflwyno yn ystod y cyfnod:

Tabl 1
Offerynnau Trwydded a Rhybuddion Rheoliadol a Gyflwynwyd gan ONR yn ystod y cyfnod hwn

Dyddiad	Math	Rhif Cyf	Disgrifiad
26/10/16	Rhyddhau Pwynt-atal Rheoliadol	Llythyr TRA70935	Ym mis Hydref 2015, roedd ONR wedi sefydlu pwynt-atal rheoliadol yn atal Magnox Cyf rhag dechrau comisiynu Elfen Adfer Adnoddau Gweddillion Tanwydd y Gogledd nes bod ONR yn fodlon â'u hargymhellion i beidio â chomisiynu System Synhwyro ac Atal Tân ar sail argon. Yn dilyn nifer o drafodaethau gyda Magnox Cyf, mae ONR bellach wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r dadleuon sydd yn cyfiawnhau'r argymhelliad a bod y pwynt-atal wedi ei ryddhau.

5 NEWYDDION ODDI WRTH ONR

Ar 1 Tachwedd 2016, cynhaliodd ONR ei Gynhadledd Diwydiant yn Llundain a daeth uwch arweinwyr ynghyd ar draws y sector niwclear. Roedd y bleser croesawu'r Farwnes Neville-Rolfe DBE CMG, Gweinidog Gwladol yn yr Adran Fusnes, Ynni a Strategaeth Diwydiannol (BEIS) i'r gynhadledd eleni; fe gyflwynodd hi [y brif araith](#). Yn dilyn y gynhadledd, mae argraffiad arbennig o [Faterion Rheoleiddio](#) wedi cael ei gyhoeddi, ac ynddo ceir crynodeb o'r hyn a drafodwyd yn ystod y dydd. Fel rhan o'n hymrwymiad i ymwneud yn gyson gyda'n holl grwpiau rhanddeiliaid roeddem yn falch croesawu 17 cynrychiolydd o nifer o sefydliadau i'r fforwm ONR / NGO ar 30 Tachwedd yn Llundain. Roedd y digwyddiad yn rhoi cyfle i

gynrychiolwyr cyrff anllywodraethol gyfarfod â nifer o arweinwyr hŷn ONR, gan gynnwys ein Prif Weithredwr a'r Prif Arolygwr Niwclear, i drafod nifer o faterion sydd yn flaenoriaeth.

Gellir cael cipolwg ar waith ONR fel rheoleiddiwr annibynnol ar y diwydiant niwclear yn Regulation Matters yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm>) yn adrodd ar y themâu allweddol a'r datblygiadau ym mhob un o raglenni rheoliadol ONR ac yn darparu diweddariad o'r newidiadau parhaus yn ONR. <http://www.onr.org.uk/index.htm>. Am y newyddion diweddaraf a'r diweddariadau yn ONR ewch i'r wefan ac arwyddo i gael ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

6 CYSYLLTIADAU

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am wybodaeth bellach am ONR, neu i gyfeirio at anghysonderau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Office for Nuclear Regulation, 2016

Os ydych yn dymuno ail-ddefnyddio'r wybodaeth ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 07/16

For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.